AMGUEDDFA CYMRU

# PARTÏON NADOLIG 2024



## Ar gael ddiwedd Tachwedd – Rhagfyr

amgueddfa.cymru

# EICH NADOLIG
# EICH STORI
# EICH AMGUEDDFA

## Beth am gynnal eich parti Nadolig 2024 yn lleoliad mwyaf hanesyddol Caerdydd?

Yng nghanol y ddinas mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gyda'i Phrif Neuadd eiconig, ei grisiau marmor ysblennydd a'i nenfwd uchel godidog yn barod i'ch croesawu chi.

Gyda lle i hyd at 270 o bobl ar gyfer swper a dawns, neu 320 ar gyfer swper ffurfiol, bydd hi'n noson Gymreig Nadoligaidd i'w chofio i chi a'ch gwesteion o dan y gromen.

Mae ein harlwywyr arobryn yn cynnig bwydlen tri chwrs Nadoligaidd bendigedig, gyda diod i'ch croesawu a chracer Nadolig.

Beth am fynd cam ymhellach a chynnal derbyniad yn ein horielau ysblennydd, wedi'ch amgylchynu gan un o'r casgliadau gorau o gelf Argraffiadol yn Ewrop, gyda gweithiau gan Renoir, Cézanne a Monet?

O ran adloniant, o DJs a bandiau lleol, i hyd yn oed sioeau hud a lledrith, bydd ein tîm arbenigol wrth law i helpu gydag awgrymiadau a threfniadau eich noson.

Cysylltwch nawr a threuliwch eich Nadolig yn eich Amgueddfa.

llogi@amgueddfacymru.ac.uk

**Ffi Nadolig ar gyfer Llogi Cyfleusterau – £4,000 +TAW**



# Bwydlen Nadolig

**Yn cynnwys diod wrth gyrraedd, pryd o fwyd tri chwrs a chracer Nadolig**

**£49.95 + TAW y pen**

Dewiswch un opsiwn ar gyfer pob cwrs i bob gwestai, neu uwchraddiwch i gael mwy nag un opsiwn am gost ychwanegol.

## Diod i'ch croesawu

- Prosecco
- Chambord Prosecco
- Ysgawen Pefriog

## Opsiynau ar gyfer y Cwrs Cyntaf

- Velouté pwmpen cnau menyn wedi'i rhostio ac afal Bramley, creision gwreiddlysiau (fegan, di-glwten)
- Tarten madarch, garlleg gwyllt a Perl Las, salad meicro
- Terîn tatws melys, llugaeron a chaws hufen, crouton surdoes

## Opsiynau ar gyfer y Prif Gwrs

- Ballantîn twrci â stwffin bricyll, ffondant wedi'u rhostio â rhosmari, garlleg a theim, gyda moron, pannas ac ysgewyll, selsig wedi'u lapio â chig moch a jus moethus
- Bol mochyn wedi'i rostio'n araf â chrwst Halen Môn, tatws saets ac afal hufennog, gyda moron, pannas ac ysgewyll, jus seidr
- Rhost cnau moethus, tatws ffondant wedi'u rhostio â rhosmari, garlleg a theim, gyda moron, pannas ac ysgewyll, jus moethus (fegan, di-glwten)

## Opsiynau ar gyfer Pwdin

- Tarten siocled oren, hufen fanila (fegan, di-glwten)
- Cacen gaws mafon a siocled gwyn, compot aeron a gwin cynnes
- Pwdin Nadolig, saws brandi

Byddwn ni'n darparu ar gyfer holl anghenion deietegol y gwesteion o fewn y pris safonol.


© Coal Poet Media

## Telerau ac Amodau

Mae mynediad i'r Amgueddfa o 6.30pm tan hanner nos.
Gellir gwneud cais i orffen yn hwyrach, am gost ychwanegol.

Lleiafswm o 150 o westeion ar gyfer pob archeb. Mae opsiynau ar gael ar gyfer grwpiau llai.

Ffi llogi cyfleusterau o £4,000 + TAW a ffioedd arlwyo o £49.95 + TAW y pen fydd yn cael eu hanfonebu ar wahân. Cyfradd safonol yw'r ffi i logi cyfleusterau.
Mae enghreifftiau o gostau cyfunol y pen isod:

| Nifer o westeion | Cost gyfunol y pen |
|---|---|
| 150 o westeion | £76.62 + TAW |
| 200 o westeion | £69.95 + TAW |
| 300 o westeion | £63.29 + TAW |

## Cyswllt

Am ragor o wybodaeth, i drefnu ymweliad â'r safle ac i archebu,
e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk
Ewch i'n gwefan **amgueddfa.cymru/llogi**

## Cefnogwch ni

Elusen yw Amgueddfa Cymru sy'n deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Bydd pob digwyddiad rydych chi'n ei gynnal yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy adrodd stori Cymru yn ein hamgueddfeydd, ein cymunedau ac yn ddigidol, a pharhau i ddod â chelf o safon ryngwladol i Gymru.

Rhif elusen gofrestredig 525774

amgueddfa.cymru

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**